# Dod yn Arolygydd Cymheiriaid yn y sector ôl-16

Ydych chi'n barod i ddechrau'ch cais? Cliciwch yma

Mae Estyn yn recriwtio ymarferwyr i fod yn arolygwyr cymheiriaid, ac wrthi'n gwahodd ceisiadau gan y rhai sydd â phrofiad yn y naill neu'r llall o'r sectorau ôl-16 canlynol:

- **dysgu oedolion yn y gymuned**
- **dysgu yn y gwaith**

Os byddant yn dymuno, ac ar yr amod fod ganddynt y profiad perthnasol, gellir cofrestru ymgeiswyr llwyddiannus fel rhai sy'n gymwys i arolygu sectorau ôl-16 lluosog, gan gynnwys dysgu oedolion yn y gymuned, AB, dysgu yn y sector cyfiawnder a dysgu yn y gwaith.

## Ynglŷn â'r rôl

Mae arolygwyr cymheiriaid yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy at arolygiadau Estyn. Maent yn aelodau llawn o'r tîm arolygu ac yn dod â'u harbenigedd presennol sy'n benodol i sector i'r broses arolygu. Maent yn cynnal arsylwadau, yn cyfarfod â dysgwyr, yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda staff darparwyr, yn cyfrannu at gyfarfodydd cymedroli a barnau, ac yn ysgrifennu testun sy'n barod am adborth ar gyfer yr adroddiad arolygu.

Mae bod yn arolygydd cymheiriaid yn cynnig cyfle unigryw i ennill profiad o'r broses arolygu, gweithio gydag arolygwyr Estyn a chyfrannu at welliant mewn darparwyr unigol a'r sector cyfan. Yn nodweddiadol, caiff arolygwyr cymheiriaid eu defnyddio unwaith neu ddwywaith y flwyddyn ond ni fyddant o reidrwydd yn cael eu defnyddio bob blwyddyn.

Mae arolygwyr cymheiriaid ar arolygiadau dysgu yn y gwaith ac arolygiadau dysgu oedolion yn y gymuned yn mynychu am wythnos waith lawn, h.y. pum niwrnod. Caiff amser ar gyfer teithio i'r arolygiad ac oddi yno ei gynnwys gyda'r wythnos waith. Rhaid i arolygwyr cymheiriaid allu ymrwymo i gyfnod llawn yr arolygiad.

Fel arall, gellir gwahodd arolygwyr cymheiriaid i wneud cais i ymuno ag un o dimau adolygiadau thematig Estyn. Yn gyffredinol, mae gweithgarwch thematig yn cynnwys ymweld â darparwyr lluosog i gyfarfod â dysgwyr ac aelodau staff, yn ogystal ag arsylwi arfer, cyn cyfrannu at adroddiad cenedlaethol ar destun neu thema benodol. Mae enghreifftiau o adroddiadau thematig Estyn ar gael ar-lein.

Mae arolygwyr cymheiriaid yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau fel rhan o arolygiadau ac adolygiadau thematig, gan gynnwys:

- arsylwi addysgu a dygsu
- gwrando ar ddysgwyr
- siarad â staff, dysgwyr a rhieni
- craffu ar samplau o waith dysgwyr
- gwerthuso effaith polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau'r darparwr

- craffu ar brosesau, arferion a dogfennau
- arwain ar agwedd ar faes arolygu
- drafftio adrannau o'r adroddiad arolygu

Yn aml, mae arolygiadau ac adolygiadau thematig yn cynnwys teithio rhwng safleoedd ac aros oddi cartref. Rhaid i arolygwyr cymheiriaid gael trwydded yrru ddilys a defnydd o gar am gyfnod yr arolygiad. Bydd Estyn yn talu costau teithio a chynhaliaeth yn ystod arolygiad, yn unol â'i bolisi teithio a chynhaliaeth.

Mae'n ofynnol i arolygwyr cymheiriaid fynychu digwyddiadau hyfforddiant diweddaru blynyddol a chynnal eu 'proffil arolygydd' Estyn. Rhaid bod arolygwyr cymheiriaid yn meddu ar wiriad cyfredol (tair blynedd neu lai) gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) er mwyn mynychu hyfforddiant cychwynnol, hyfforddiant diweddaru blynyddol ac arolygiad.

Mae arolygwyr cymheiriaid yn rhan allweddol o'n timau arolygu ac adolygiadau thematig. Fel arolygydd cymheiriaid, byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth a'ch medrau i gyfrannu at waith y tîm. Bydd bod yn arolygydd cymheiriaid yn rhoi cyfle i chi ddysgu am y broses arolygu a gweld darparwyr eraill wrth eu gwaith. Gall ddarparu cyfle gwerthfawr i arsylwi arfer effeithiol.

## Meini prawf sy'n benodol i'r rôl

Gwybodaeth:

- Yn dangos gwybodaeth gyfoes mewn un neu fwy o'r sectorau arolygu ôl-16 a nodwyd
- Yn deall strategaethau, polisïau, cynlluniau a mentrau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg a hyfforddiant yng Nghymru ac yn dilyn hynt a helynt datblygiadau newydd
- Yn dangos awydd i wella addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a dealltwriaeth o rôl allweddol Estyn yn y genhadaeth hon
- Yn dangos ymwybyddiaeth o bolisïau a gweithdrefnau'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a diogelu data, ac ymwybyddiaeth ohonynt, gan roi gwybod am ei holl bryderon i unigolyn priodol

Medrau:

- Yn cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol trwy fedrau cyfathrebu tra datblygedig yn ysgrifenedig ac ar lafar; yn gallu ysgrifennu'n glir ac yn gryno gan ddilyn arweiniad ysgrifennu Estyn
- Yn cyfrannu at ddatblygu a lledaenu arfer dda mewn addysg a/neu hyfforddiant
- Yn llunio barnau cadarn ac yn gwneud penderfyniadau dibynadwy mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd heriol a beichus
- Yn ymgysylltu â chydweithwyr a darparwyr yn adeiladol ac yn broffesiynol
- Yn cyflawni safon uchel o waith ac yn gwella'n barhaus trwy ymateb yn briodol i adborth
- Yn meddu ar y gallu a'r parodrwydd i weithio'n hyblyg a datblygu medrau newydd
- Yn gweithio ag uniondeb ac yn gallu ategu cod ymddygiad Estyn ar gyfer arolygwyr

- Yn gallu defnyddio cymwysiadau TG safonol yn hyderus (mae hyfforddiant priodol ar gael)

## Cymhwystra

Bydd arolygwyr cymheiriaid:
- yn gweithio mewn darparwr ôl-16 ar hyn o bryd (dysgu oedolion yn y gymuned, AB, dysgu yn y sector cyfiawnder a dysgu yn y gwaith)
- yn meddu ar o leiaf bum mlynedd o brofiad mewn addysgu / asesu neu rôl â chysylltiad agos â'r rheiny; mae profiad mewn rôl arwain yn fanteisiol ond nid yw'n hanfodol
- yn gallu arolygu trwy gyfrwng y Saesneg; mae'r gallu i arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol ond nid yw'n hanfodol
- yn cael cefnogaeth eich Pennaeth / Prif Weithredwr / Rheolwr Gyfarwyddwr neu gadeirydd y llywodraethwyr (lle bo'n berthnasol)

## Dewis a hyfforddi

Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal mewn cyfarfod wyneb yn wyneb ar **12-14 Medi 2023 yng Nghaerdydd** (lleoliad i'w gadarnhau). Bydd Estyn yn ad-dalu eich treuliau teithio, cynhaliaeth a llety (os oes angen) am fynychu'r digwyddiad hwn.

Bydd yr hyfforddiant cychwynnol yn cynnwys elfen wedi'i hasesu'n ffurfiol.

Er y gall ymgeiswyr wneud cais i gael eu cofrestru fel arolygydd cymheiriaid mewn hyd at bob un o'r pedwar sector ôl-16 a nodir uchod, Estyn fydd â'r disgresiwn terfynol ynghylch pa arolygwyr fydd yn cael eu cofrestru ar gyfer pob sector.

**Arolygiad(au) prawf:** Cewch eich defnyddio mewn arolygiad asesedig, a bydd yr arolygydd arweiniol yn gwerthuso eich perfformiad.

## Treuliau a thâl

- Mae rôl yr arolygydd cymheiriaid yn wirfoddol ac nid oes tâl ar ei chyfer. Bydd Estyn yn talu swm i'ch cyflogwr i gyfrannu at dalu costau eich absenoldeb tra byddwch yn gweithio mewn arolygiad neu ymweliadau adolygiadau thematig
- Bydd Estyn yn talu costau teithio, llety a chynhaliaeth ar gyfer arolygwyr cymheiriaid tra byddant yn gweithio mewn arolygiad neu'n cynnal ymweliadau adolygiadau thematig, yn unol â'i bolisi teithio a chynhaliaeth
- Mae hyfforddiant diweddaru blynyddol ar gyfer arolygwyr cymheiriaid yn rhad ac am ddim, ond nid yw Estyn yn ad-dalu treuliau teithio neu gynhaliaeth am fynychu hyfforddiant diweddaru.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Os cewch eich gwahodd i'r hyfforddiant, gofynnwn i chi sicrhau eich bod wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Dylai'r dystysgrif fod yn

dystysgrif fanylach, nad yw'n fwy na thair oed a dylai gynnwys y categori gweithlu plant. Bydd angen y gwiriad hwn gan y GDG arnoch i fod yn arolygydd cymheiriaid.

## Defnyddio

Os byddwch yn cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus, bydd eich enw'n cael ei ychwanegu at garfan Estyn o arolygwyr cymheiriaid cofrestredig. Mae'n bwysig eich bod yn diweddaru'ch manylion cyswllt yn gyson trwy eich proffil arolygydd Estyn.

Os byddwch yn cael gwahoddiad i ymuno â thîm arolygu neu dîm adolygiad thematig, byddwn yn anfon neges e-bost atoch tua deufis cyn yr arolygiad i roi gwybod i chi am y dyddiadau y mae angen arolygwyr cymheiriaid ar eu cyfer. Gofynnir i chi gadarnhau eich bod ar gael. Os byddwch yn derbyn y gwahoddiad, byddwch wedyn yn derbyn mwy o wybodaeth gan y cydlynydd arolygu a'r arolygydd cofnodol yn Estyn, sy'n cydlynu ac yn arwain yr arolygiad.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob arolygydd cymheiriaid i fynychu hyfforddiant diweddaru. Ni chodir tâl am yr hyfforddiant, ond ni allwn dalu costau cyflenwi na chostau teithio a chynhaliaeth.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein:** https://www.smartsurvey.co.uk/s/ECUA2B
**Dyddiad cau: 13 Mehefin 2023**

Byddwn yn cysylltu â phawb am ganlyniad eu cais yn ystod yr wythnos yn dechrau **26 Mehefin 2023.**

Mae unrhyw feysydd â * wrth eu hymyl yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb ar gyfer y meysydd hyn. Os na fyddant yn berthnasol i chi, rhowch 'Dd/B'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych ragor o gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom: digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 44 6510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

## Atodiad – Arbenigeddau pwnc

Y rhain yw'r categorïau arbenigeddau pwnc posibl. Os nad ydynt yn cyd-fynd â'ch arbenigedd pwnc yn fanwl, dewiswch y categori sy'n gweddu agosaf i'ch arbenigedd pwnc. Gofynnir i chi ddewis hyd at dri fel rhan o'ch cais.

| **Arbenigeddau Pwnc** |
|---|
| Cymhwyster Bagloriaeth Cymru |
| Rheolaeth Safon Uwch |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) |
| Darpariaeth lles dysgu oedolion yn y gymuned |
| Darpariaeth crefftau dysgu oedolion yn y gymuned |

| |
|---|
| Darpariaeth diddordeb personol dysgu oedolion yn y gymuned |
| Datblygiad a Lles y Plentyn |
| Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Mathemateg |
| Gwyddoniaeth |
| Amaethyddiaeth |
| Gofal Anifeiliaid a Gwyddorau Milfeddygol |
| Garddwriaeth a Choedwigaeth |
| Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu |
| Gweithrediadau Cludiant a Chynnal a Chadw (Cerbydau Modur) |
| Adeiladu ac Adeiladwaith |
| TGCh |
| Harddwch |
| Gwallt |
| Lletygarwch ac Arlwyo |
| Manwerthu a Chyfanwerthu |
| Warysau a Dosbarthu |
| Chwaraeon a Hamdden |
| Teithio a Thwristiaeth |
| Celf a Dylunio |
| Y Cyfryngau, Cyhoeddi a Gwasanaethau Gwybodaeth |
| Y Celfyddydau Perfformiadol |
| Dylunio a Thechnoleg |
| Hanes, Athroniaeth a Diwinyddiaeth |
| Addysg Grefyddol |
| Anthropoleg, Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol |
| Daearyddiaeth |
| Gwleidyddiaeth |
| Economeg |
| Iaith a Llenyddiaeth Saesneg |
| Ieithoedd Tramor Modern |
| Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg |
| Cymorth Dysgu Uniongyrchol |
| Addysgu a Darlithio |
| SSIE |
| Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru |
| Medrau Byw yn Annibynnol |
| Llythrennedd |
| Rhifedd |
| Cyfrifeg |
| Busnes, Gweinyddu a Chyllid |
| Y Gyfraith a Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Marchnata a Gwerthu |